**Rhif: 51526**

Llywodraeth Cymru

Dogfen ymgynghori

# Cyflwyno'r Cynllun Dychwelyd Ernes Gorau i Gymru

Dyddiad cyhoeddi: 18 Awst 2025

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 10 Tachwedd 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2025

## Cynnwys

**Trosolwg** ... 4

**Sut i ymateb** ... 6

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** ... 6

**Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)** ... 6

**Cyflwyniad** ... 8

**Cwmpas y CDE yng Nghymru** ... 9

**Beth mae ailddefnyddio yn ei olygu i Gymru** ... 10

- **Gwella ein heconomi** ... 12

**Cyflwyno'r CDE gorau i Gymru** ... 12

**Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn** ... 14

**Cwestiynau'r ymgynghoriad** ... 14

- **Y llwybr tuag at ailddefnyddio** ... 15
- **Fframwaith rheoleiddio - targedau ar gyfer cynyddu cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio** ... 16
  - **Cyfraddau dychwelyd a mannau dychwelyd** ... Error! Bookmark not defined.
  - **Targedau ar gyfer cyfraddau dychwelyd** ... Error! Bookmark not defined.
- **Cynorthwyo'r newid i gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio** ... 20
  - **Pontio o boteli gwydr untro i boteli gwydr y gellir eu hailddefnyddio** ... 20
  - **Cynwysyddion eraill a allai gynorthwyo'r newid i gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio** ... 21
  - **Ysgogiadau eraill i gynorthwyo'r newid i gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio** ... 22
- **Fframwaith rheoleiddio – safonau gofynnol ar gyfer ailddefnyddio** ... 23
  - **Sawl gwaith y dylid defnyddio cynhwysydd y gellir ei ailddefnyddio?** ... 24
  - **Cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes** ... 26
  - **Safoni poteli** ... 26
  - **Safonau gofynnol eraill** ... 28
  - **Dyluniad mannau dychwelyd** ... 13
- **Trin a logisteg** ... 28
  - **Daliedyddion ar gyfer ymdrin â chynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio** ... 28
  - **Ffioedd trin gweithredwyr mannau dychwelyd** ... 29

**Prosesu cynwysyddion i'w hailddefnyddio** .... 30
**Lefelau ernes** .... 31
**Technoleg ac arloesi** .... 33
**Manteision y Cynllun Dychwelyd Ernes Gorau i Gymru** .... 35
**Cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd** .... 39

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar yr ymgyngoriadau blaenorol sydd wedi llywio datblygiad y Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE) i Gymru ac mae'n canolbwyntio ar gasglu adborth a fydd yn llywio'r gwaith o gyflwyno CDE sy'n cynnwys cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio a chynwysyddion untro.

Roedd yr ymgyngoriadau blaenorol yn ymdrin â'r egwyddorion ar gyfer CDE a dyluniad y cynllun, a oedd yn cynnwys cwmpas y CDE yng Nghymru:

- 18 Chwefror – 13 Mai 2019: Cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd (poteli a chaniau)[1]
- 24 Mawrth – 4 Mehefin 2021: Cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon[2]

Ym mis Tachwedd 2024 cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig y camau nesaf ar gyfer CDE yng Nghymru, a oedd yn cynnwys ymrwymiad i'r ymgynghoriad pellach hwn. Fel roedd y datganiad yn ei ddweud, nod yr ymgynghoriad hwn yw casglu safbwyntiau ar sut y gellir cyflwyno'r CDE yn y ffordd fwyaf effeithiol, gan sicrhau ei fod yn fanteisiol i Gymru ac yn cefnogi newid i economi gylchol, gan sicrhau'r manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol mwyaf hefyd.

Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, cafwyd datganiad arall ym mis Gorffennaf 2025, yn dilyn y gwaith ymgysylltu ymlaen llaw helaeth a gafodd ei wneud. Amlinellodd y datganiad y bwriad i gyflymu'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r CDE yng Nghymru, fel ei fod yn cyd-fynd â'r broses o gyflwyno CDE yng ngweddill y DU. Mae'r penderfyniad hwn yn dilyn ymgysylltiad eang â'r diwydiant a llywodraethau eraill y DU ac mae'n adlewyrchu'r angen i gefnogi rhyngweithredu rhwng y cynlluniau ym mhob gwlad a darparu sicrwydd i gynhyrchwyr a manwerthwyr. Hefyd, roedd y datganiad yn nodi y bydd gofynion ailddefnyddio yn cael eu cyflwyno'n raddol er mwyn rhoi amser i'r diwydiant addasu i'r newid i gynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn llywio'r dull gweithredu hwn.

Os yw cwmpas y CDE yng Nghymru yn wahanol i'r cynlluniau eraill yn y DU, bydd y dull gweithredu graddol yn cynnwys trefniadau pontio megis dim ernes ar gyfer cynwysyddion gwydr untro er mwyn osgoi'r angen am newidiadau i systemau labelu, cynhyrchu neu ddosbarthu.

Cymru yw'r wlad ail orau yn y byd am ailgylchu, ac mae cyflwyno CDE a fydd yn sicrhau manteision yng nghyd-destun Cymru yn hanfodol, ond mae'n golygu hefyd bod Cymru mewn sefyllfa unigryw i ddatblygu'r arweinyddiaeth y mae wedi'i dangos hyd yn hyn. Yn unol â strategaeth economi gylchol Llywodraeth Cymru, mae hyn yn golygu gwneud *Mwy nag Ailgylchu* trwy drosglwyddo i economi gylchol. Wrth wneud hyn, y nod yw darparu cynllun sy'n gyson â'r gorau yn y byd trwy fanteisio ar brofiad rhyngwladol. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynllun nid yn unig yn darparu manteision amgylcheddol ac yn cynorthwyo'r sector i leihau

---

[1] https://www.gov.uk/government/consultations/introducing-a-deposit-return-scheme-drs-for-drinks-containers-bottles-and-cans/outcome/introducing-a-deposit-return-scheme-drs-in-england-wales-and-northern-ireland-executive-summary-and-next-steps

[2] https://www.gov.uk/government/consultations/introduction-of-a-deposit-return-scheme-in-england-wales-and-northern-ireland

allyriadau, ond hefyd bod diwydiant yn gallu elwa ar y gostyngiad mewn deunyddiau sydd eu hangen a bod ein cymunedau yn gallu elwa ar y gostyngiad mewn sbwriel o gynwysyddion o bob math.

Felly, bydd eich ymatebion yn bwysig er mwyn helpu i lywio’r camau nesaf ar gyfer datblygu CDE sy'n cyflawni dros Gymru.

## Sut i ymateb

I ymateb i'r ymgynghoriad hwn, cwblhewch ein ffurflen ar-lein a’i chyflwyno.

Fel arall, gallwch chi lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb a’i hanfon drwy e-bost i’r cyfeiriad hwn: llc.rhaglendrs@llyw.cymru neu drwy'r post i:

Tîm Polisi'r Cynllun Dychwelyd Ernes
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori. I gael rhagor o wybodaeth ac archebu lle, e-bostiwch: llc.rhaglendrs@llyw.cymru

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiwn print bras, Braille ac ieithoedd amgen o’r ddogfen hon ar gael ar gais.

Manylion cyswllt i gael mwy o wybodaeth:

Tîm Polisi Cynllun Dychwelyd Ernes
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: llc.rhaglendrs@llyw.cymru

This document is also available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd.

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Erthygl 6(1)(e))

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgyngoriadau ar y cyd, mae’n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Lle y bo Llywodraeth Cymru’n ymgymryd â gwaith dadansoddi pellach ar ymatebion yr ymgynghoriad, yna mae’n bosibl y bydd y gwaith hwn yn cael ei gomisiynu i’w gynnal gan drydydd parti awdurdodedig (e.e.

sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghoriaeth). Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:


Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## **Cyflwyniad**

Yn syml, Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE) yw cynllun lle rydych chi’n talu ernes fach wrth brynu diod, ac yna’n cael yr arian yn ôl wrth i chi ddychwelyd y cynhwysydd gwag. Mae cynwysyddion sy'n cael eu dychwelyd naill ai'n cael eu malu a'u hailgylchu, neu yn y Cynlluniau Dychwelyd Ernes gorau yn y byd, maen nhw'n cael eu golchi a'u hailddefnyddio hefyd. Golchi ac ailddefnyddio cynwysyddion nifer o weithiau yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy yn amgylcheddol a mwyaf cost-effeithiol oherwydd ei fod yn sicrhau bod modd defnyddio'n cynwysyddion am gyfnod hirach cyn iddynt gael eu hailgylchu. Pan fydd cynwysyddion yn cael eu hailgylchu, mae'n creu deunydd wedi'i ailgylchu o ansawdd uchel y gellir ei ddefnyddio i wneud cynwysyddion newydd.




*Delwedd 1 - Sut mae cynllun dychwelyd ernes yn gweithio mewn archfarchnad*

Mae CDE yn fath o Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR), lle mae busnesau yn gyfrifol am y cynhyrchion maen nhw'n eu rhoi ar y farchnad o'r adeg pan fyddant yn cael eu cynhyrchu, hyd at eu gwaredu. Mae'r dull gweithredu hwn yn golygu bod cynhyrchwyr yn gyfrifol am dalu costau gwaredu eu cynnyrch, sy'n creu cymhelliant i ailddefnyddio ac ailgylchu deunydd yn hytrach na bod y sector cyhoeddus yn ysgwyddo'r costau hyn.

Yn y rhan fwyaf o Gynlluniau Dychwelyd Ernes, mae pobl yn dychwelyd cynwysyddion diodydd gwag i siopau. Fel arfer, bydd hyn yn cynnwys trefn lle mae gan archfarchnadoedd a siopau mawr beiriannau gwerthu gwrthdro (RVMs), gyda rhai siopau llai yn derbyn cynwysyddion sydd wedi'u dychwelyd dros y cownter (cyfeirir at hyn fel dychwelyd â llaw). Fodd bynnag, mae technoleg newydd yn datblygu a fydd yn caniatáu mwy o opsiynau, er enghraifft trwy ddefnyddio system olrhain digidol ar gyfer cynwysyddion sydd â rhif cyfresol fel bod modd ad-dalu ernesau gartref.

Mae Cynlluniau Dychwelyd Ernes llwyddiannus ar waith ledled y byd, ac maen nhw'n ffordd brofedig o sicrhau bod cynwysyddion yn cael eu dychwelyd i'w hailddefnyddio a'u hailgylchu. Yn ei dro, mae hyn yn cefnogi'r newid i economi gylchol, lle mae deunyddiau yn cael eu defnyddio a'u hailddefnyddio er mwyn parhau i'w defnyddio cyn hired â phosibl, cyn cael eu hailgylchu.

Gan fod Cymru eisoes yn arweinydd byd-eang ym maes ailgylchu, mae'n hollbwysig sicrhau y bydd cyflwyno CDE yn helpu Cymru i sicrhau canlyniadau hyd yn oed yn well, heb amharu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud. Yn ogystal â gwella ailgylchu, bydd defnyddio CDE i gyflwyno system ailddefnyddio yn raddol yn unol â chynlluniau gorau'r byd yn lleihau gwastraff o ddeunydd pecynnu, yn lleihau ein hallyriadau carbon, ac yn gwneud ein cymunedau'n lanach trwy leihau sbwriel.

**Ond mae'r manteision yn mynd hyd yn oed ymhellach.** Mae CDE sy'n gwella ailgylchu ac yn cynnwys ailddefnyddio yn gallu gwella argaeledd deunydd o ansawdd uchel sydd wedi'i ailgylchu ar gyfer yr economi, gwella effeithlonrwydd adnoddau a gwydnwch cadwyni cyflenwi, lleihau costau deunyddiau ar gyfer cynhyrchwyr, a chreu cyfleoedd ar gyfer swyddi gwyrdd fel rhan o'r newid i economi gylchol. Felly, mae gan CDE y potensial i ddatgloi cyfleoedd twf gwyrdd sylweddol. Mae dadansoddiad annibynnol yn awgrymu y gallai'r newid i economi gylchol arbed hyd at £3.8 biliwn[3] i economi Cymru, gan greu swyddi gwyrdd o ansawdd uchel, meithrin arloesedd, a chryfhau gwydnwch mewn sectorau allweddol fel logisteg a gweithgynhyrchu, gan gynnwys yn y diwydiant diodydd. Felly, nid yn unig y mae'n dda i'r amgylchedd, mae hefyd yn dod â chyfleoedd economaidd a manteision cystadleurwydd sylweddol mewn economi sy'n datgarboneiddio.

## Cwmpas y CDE yng Nghymru

Yn unol â chanlyniadau'r ymgyngoriadau blaenorol, bydd y CDE yn cwmpasu cynwysyddion wedi'u gwneud o blastig Polyethylen Tereffthalad (PET), gwydr, alwminiwm a dur, o 150ml hyd at 3 litr. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflwyno'r CDE Gorau i Gymru, bydd y cynllun yn cwmpasu cynwysyddion untro a chynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio.

Bydd cynwysyddion diodydd sy'n cael eu gwerthu mewn niferoedd isel (llinellau cynnyrch cyfaint isel) a chynwysyddion sydd eisoes yn rhan o system ailddefnyddio dolen gaeedig lwyddiannus (fel poteli gwydr a ddefnyddir wrth ddanfon llaeth a sudd i gartrefi pobl) yn cael eu heithrio o'r CDE yng Nghymru.

Yn unol â chanlyniadau ymgyngoriadau blaenorol, bydd gwydr yn cael ei gynnwys yn y CDE o'r cychwyn cyntaf, ond defnyddir dull gweithredu fesul cam gofalus a fydd yn sicrhau bod modd cyflwyno rhwymedigaethau ar gyfer gwydr y gellir ei ailddefnyddio

[3] Levelling Up Through a More Circular Economy Final Report, Table 7, page 18, Scenario 3: Transformation, Wales GVA gain subtotal LEVELLING UP THROUGH A MORE CIRCULAR ECONOMY__2.pdf

a gwydr untro yn raddol. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau pontio sy’n osgoi unrhyw darfu a'r angen am labeli gwahanol neu newidiadau i systemau cynhyrchu a dosbarthu.

Hefyd yn unol ag arferion gorau rhyngwladol, bydd Sefydliad Rheoli Ernes (DMO) yn cael ei benodi i reoli'r cynllun, a bydd ganddo hyblygrwydd i wneud penderfyniadau sy'n sicrhau dichonoldeb gweithredol.

## Beth mae ailddefnyddio yn ei olygu i Gymru

Mae cyflwyno CDE yn gyfle i Gymru ddilyn arferion gorau rhyngwladol trwy gynnwys cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio yn ogystal â chynwysyddion diodydd untro. Yn ei dro, dyma gyfle allweddol i Gymru barhau â'i chynnydd tuag at economi gylchol fwy cynaliadwy ac effeithlon. Mae cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio sydd wedi'u cynllunio i gael eu casglu, eu golchi a'u hail-lenwi sawl gwaith yn well i'r amgylchedd a’r economi ac o fudd i gymdeithas. Mae'n lleihau gwastraff, yn hyrwyddo defnydd gwell o adnoddau, yn cefnogi busnesau newydd, ac yn gallu creu mwy o swyddi gwyrdd yng Nghymru.

Bydd CDE sy'n canolbwyntio ar ailddefnyddio yn lleihau'r deunyddiau crai sydd eu hangen i wneud deunydd pecynnu, yn annog pobl i ddefnyddio cynhyrchion yn fwy cynaliadwy, yn lleihau sbwriel, ac yn arbed ynni. Hefyd, mae'n gallu helpu i gyfrannu at leihau costau byw a lleihau anghydraddoldeb. Bydd yr holl fanteision hyn yn helpu i gyflawni ein hamcanion polisi a'n hymrwymiadau i sicrhau amgylchedd gwell ac economi well yng Nghymru:

**Mwy nag Ailgylchu**[4] yw strategaeth economi gylchol Cymru. Mae’n canolbwyntio ar ddefnyddio deunyddiau am gyhyd â phosibl ac osgoi gwastraff o bob math, ac mae’n ymrwymo i wneud Cymru yn wlad dim gwastraff, carbon sero net erbyn 2050.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**[5] yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i bawb yng Nghymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n agos gyda phobl a chymunedau, a mynd i'r afael â materion fel tlodi, iechyd, a newid yn yr hinsawdd.

**Tuag at Ddyfodol Diwastraff**[6] yw cynllun Cymru ar gyfer gwella effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff. Mae'n cynnwys targedau i leihau gwastraff cyffredinol 25% a haneru gwastraff bwyd y gellir ei osgoi erbyn 2025. Erbyn 2050, y nod yw sicrhau nad oes unrhyw wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi neu'n cael ei losgi, yn ogystal â lleihau effaith amgylcheddol gwastraff yn unol â therfynau ecolegol "un blaned"; tua 65% yn llai o wastraff na'r lefelau presennol. Mae'r cynllun yn seiliedig ar dair egwyddor: atal gwastraff, defnyddio adnoddau’n effeithlon ac ailgylchu

[4] https://www.llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu-0
[5] https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html
[6] https://www.llyw.cymru/tuag-ddyfodol-diwastraff-ein-strategaeth-wastraff

cymaint o wastraff â phosibl. Mae'n cael ei gefnogi gan reoliadau a chynlluniau sector sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob rhan o gymdeithas weithredu.

Cyflwynwyd **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)**[7] gerbron y Senedd ym mis Mehefin 2025 i'w ystyried gan yr Aelodau, ac mae'n gosod sylfaen gadarn ar gyfer CDE, gan ymwreiddio egwyddorion amgylcheddol allweddol yng nghyfraith Cymru, a'i gwneud yn ofynnol cynnwys agweddau ar ddiogelu'r amgylchedd ym mhob penderfyniad polisi perthnasol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y CDE ar gyfer Cymru yn lleihau gwastraff a llygredd, ac yn cyd-fynd â nodau ehangach ar gyfer cynaliadwyedd ac atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Argyfwng Hinsawdd a Natur**[8] yn 2021. Rydym wedi ymrwymo i weithredu er mwyn lleihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â'r argyfwng natur byd-eang. Mae osgoi gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau a defnyddio adnoddau yn effeithlon yn gamau hanfodol er mwyn sicrhau Cymru gynaliadwy a chydnerth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae CDE sy'n helpu i wella ailgylchu a chyflwyno system ailddefnyddio yn gam mawr tuag at y nodau hyn. Bydd yn lleihau sbwriel ac yn helpu i ddatblygu economi gylchol sy'n gwobrwyo arferion da ac yn sicrhau manteision amgylcheddol y tu hwnt i ailgylchu. Mae hyn yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwneud ein heconomi yn gryfach.

## Mynd i'r afael â sbwriel

Mae sbwriel yn broblem mewn cymunedau ledled y byd. Mae arolygon yng Nghymru yn dangos mai cynwysyddion diodydd yw rhan fawr o'r sbwriel ar strydoedd a thraethau Cymru ac yn eu mannau gwyrdd. Maent yn gallu niweidio pobl, anifeiliaid anwes a bywyd gwyllt. Mae glanhau sbwriel yn gallu bod yn waith drud, ac mae'n gwneud ein cymunedau yn llai deniadol, gan effeithio ar lesiant a thwristiaeth.

- Yn ôl rhagolygon Cadwch Gymru'n Daclus[9] yn 2023-2024, roedd lefelau uchel o gynwysyddion diodydd ar **43.6%** o strydoedd, ac roedd lefelau mewn siroedd unigol yn amrywio o **19.4%** i **86.1%** o strydoedd. Rhywbeth sy'n peri pryder yw'r ffaith fod y data hwn yn dangos bod presenoldeb poteli gwydr wedi mwy na dyblu mewn pedair blynedd .
- Nododd y Gymdeithas Cadwraeth Forol[10] yn 2024 fod cynwysyddion diodydd a daflwyd fel sbwriel wedi'u canfod ar **99%** o'r traethau a arolygwyd yng Nghymru.

[7] https://www.llyw.cymru/bil-yr-amgylchedd-egwyddorion-llywodraethiant-a-thargedau-bioamrywiaeth-cymru
[8] https://www.gweithreduarhinsawdd.llyw.cymru/newid-hinsawdd/yr-argyfwng-natur/
[9] https://keepwalestidy.cymru/cy/blog/angen-cynllun-dychwelyd-ernes-nawr-yn-fwy-nag-erioed/
[10] https://www.mcsuk.org/what-you-can-do/join-a-beach-clean/beachwatch-2024-what-you-found/

- Nododd Trash Free Trails[11] fod **33%** o'r 9.2 miliwn o eitemau sy'n cael eu canfod ar lwybrau a hawliau tramwy cyhoeddus yn y DU yn gynwysyddion diodydd, ac roedd **8%** o'r arolygon wedi nodi bod o leiaf un anifail wedi marw ar ôl dod i gysylltiad ag eitem untro .

Dangoswyd bod y CDE yn effeithiol wrth leihau sbwriel.

## Gwella ein heconomi

Mae Cymru eisoes yn denu buddsoddiad oherwydd ein perfformiad ailgylchu o'r radd flaenaf. Bydd CDE sy'n cynnwys ailddefnyddio deunyddiau yn datblygu'r gwaith hwn trwy sicrhau bod mwy o gynwysyddion yn parhau i gael eu defnyddio yng Nghymru, gan leihau'r angen am gynwysyddion untro newydd. Hefyd, bydd yn creu cyfleoedd newydd i'r diwydiant a swyddi newydd ym meysydd gweithgynhyrchu, casglu, didoli a glanhau poteli y gellir eu hailddefnyddio.

Mae adroddiad A 30% reuse future for the UK[12] gan Go Unpackaged yn dangos bod ailddefnyddio deunydd pecynnu nifer o gynhyrchion groser ar raddfa fawr yn gallu sicrhau manteision economaidd sylweddol, gan gynnwys:

- creu hyd at 13,000 o swyddi newydd
- arbed £314m i £577m y flwyddyn mewn costau i'r system o'r dechrau i'r diwedd
- arbed £136m y flwyddyn mewn costau pEPR

Bydd busnesau hefyd yn elwa ar argaeledd deunyddiau wedi'u hailgylchu o ansawdd uchel, cadwyni cyflenwi mwy gwydn, a defnydd mwy effeithlon o adnoddau, gyda chynwysyddion sydd wedi'u cynllunio i'w hailddefnyddio a chylchoedd cynhyrchu dolen gaeedig.

Trwy gynnwys cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio yn ein CDE, rydym yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr ac adeiladu ar arweinyddiaeth amgylcheddol Cymru. Hefyd, bydd yn lleihau allyriadau ac yn datblygu economi gryfach a gwyrddach i bawb, nawr ac yn y dyfodol.

## Cyflwyno'r CDE gorau i Gymru

Mae gweithredu'n rhagweithiol gyda'n gilydd yn allweddol i sicrhau llwyddiant y CDE yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda gwledydd eraill y DU, y diwydiant diodydd, manwerthwyr, cymunedau, grwpiau amgylcheddol ac awdurdodau lleol i sicrhau bod y CDE yn sicrhau gwelliannau gwirioneddol yng Nghymru trwy wneud *Mwy nag Ailgylchu*.

---

[11] https://www.trashfreetrails.org/state-of-our-trails-report

[12] https://static1.squarespace.com/static/64f87d1ca3b62218f953f0c8/t/68557b025be3d06cb083511a/1750432514856/30percent-reuse-future-for-UK-report-GoUnpackaged.pdf

Mae ailddefnyddio yn rhan bwysig o'r cynlluniau rhyngwladol mwyaf llwyddiannus ac mae'n elfen hanfodol i Gymru er mwyn gwneud mwy o gynnydd a symud tuag at economi gylchol. Felly, buom yn dysgu o'r enghreifftiau rhyngwladol gorau o gynlluniau o’r fath er mwyn deall sut y gall Cymru elwa i’r eithaf ar y manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Er mwyn sicrhau bod y CDE yn gweithio i bawb yng Nghymru, bydd angen sicrhau hefyd ei fod yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn hygyrch. Bydd angen iddo ddefnyddio negeseuon clir a chywir sy'n bodloni Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys arwyddion, cyfarwyddiadau a gwybodaeth fel safon orfodol ar draws holl fannau cyswllt y CDE. Bydd yr holl wybodaeth i'r cyhoedd am y CDE yn ddwyieithog, a bydd templedi dwyieithog yn cael eu darparu i'r holl sefydliadau partner. Bydd cynnig y gwasanaeth yn ddwyieithog yn helpu i ymgysylltu â phobl yn fwy effeithiol ac yn rhoi hwb i gyfranogiad yn y cynllun. Hefyd, byddwn yn manteisio ar y cyfle i gyfeirio partneriaid yn y sector preifat a'r trydydd sector at gymorth fel *Helo Blod*, gwasanaeth cyngor a chyfieithu Cymraeg am ddim, er mwyn eu helpu i ymgorffori'r Gymraeg yn eu busnesau a'u gwybodaeth i'r cyhoedd. Mae hyn yn cefnogi dyheadau Cymraeg 2050, y strategaeth i gyrraedd ein targed o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chynyddu'r defnydd bob dydd o'r Gymraeg trwy sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o'r cynllun a'r dirwedd weledol ledled y wlad.

## Dyluniad mannau dychwelyd

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu CDE uchel ei berfformiad sy'n cynnwys cynwysyddion untro a chynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio, gan sicrhau bod y cynllun yn ddigon hyblyg i gael ei ddiogelu at y dyfodol, annog arloesedd ac osgoi cyfyngiadau diangen.

Wrth benderfynu ar leoliad a dyluniad mannau dychwelyd, rhaid cydymffurfio’n llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy fod yn hygyrch ac yn hawdd i bawb eu defnyddio, gan gynnwys pobl ag anghenion gwahanol. Hefyd, rhaid iddynt ddefnyddio negeseuon clir a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, o ran arwyddion a brandio.

Yn gyffredinol, mae mannau dychwelyd yn cael eu lleoli mewn siopau; er enghraifft, fel arfer bydd gan siopau mawr beiriannau gwerthu gwrthdro (RVMs), a bydd siopau llai yn gallu derbyn cynwysyddion sydd wedi'u dychwelyd dros y cownter (cyfeirir at hyn fel dychwelyd â llaw).

Fodd bynnag, mae opsiynau arloesol eraill ar gael megis:

- canolfannau neu giosgau dychwelyd mawr mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ac mewn ardaloedd preswyl trefol prysur, fel bod pobl yn gallu dychwelyd llawer o gynwysyddion ar yr un pryd
- mannau dychwelyd carreg y drws: mae manwerthwyr bwyd ar-lein yn casglu cynwysyddion gwag pan fyddant yn dosbarthu i gartrefi
- mannau dychwelyd wrth ymyl y ffordd: gellir dychwelyd cynwysyddion trwy ddefnyddio casgliadau ailgylchu awdurdodau lleol o gartrefi

- mannau dychwelyd wedi'u lleoli mewn seilwaith cymunedol, megis canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a chanolfannau chwaraeon.

Ar gyfer opsiynau arloesol, mae'n bosibl y bydd angen systemau digidol newydd neu wedi'u huwchraddio ar gyfer labeli a sganio codau bar, yn ogystal â newidiadau i seilwaith fel cerbydau casglu ailgylchu a chyfleusterau didoli.

## Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

Cynhelir yr ymgynghoriad deuddeg wythnos hwn rhwng 18 Awst a 10 Tachwedd 2025.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu adborth i lunio'r CDE Gorau i Gymru sy'n cynnwys cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio a chynwysyddion diodydd untro.

Mae ymgyngoriadau blaenorol ar CDE wedi dangos cefnogaeth fawr i gynnwys nid yn unig gynwysyddion gwydr (83% o'r ymatebwyr) yn y cynllun, ond roedd 73% o'r ymatebwyr o blaid ail-lenwi ac ailddefnyddio poteli gwydr, yn hytrach na'u hailgylchu ar ôl eu defnyddio unwaith. Mae'r ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar yr adborth clir i’r ymgynghoriad blaenorol ac yn canolbwyntio ar y ffordd orau o sicrhau bod CDE yng Nghymru yn cynnwys elfen ailddefnyddio.

Mae egwyddorion sylfaenol CDE (ei gwmpas, sut y gellid ei reoli, ei ariannu a'i fonitro) eisoes wedi bod yn rhan o ymgyngoriadau cynharach, ac mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi llywio datblygiad y CDE hyd yn hyn. Felly, nid yw'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar yr egwyddorion hyn.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Rydym eisiau clywed eich safbwyntiau ar sut y gall CDE sy'n cynnwys elfen ailddefnyddio ddod â'r manteision mwyaf i Gymru, a helpu i gyflawni ein nodau ar gyfer mynd i’r afael â’r blaenoriaethau amgylcheddol a thyfu economi wyrddach, fwy gwydn, wrth i ni symud tuag at economi gylchol, ac amgylchedd glanach.

Mae datblygiad yr ymgynghoriad hwn wedi cael ei lywio gan adborth sydd eisoes wedi dod i law o ystod o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynharach eleni, yn ogystal â'r ymatebion i ymgyngoriadau blaenorol ar CDE.

### Dull arfaethedig o gyflwyno'r CDE Gorau i Gymru

Yn unol â chynlluniau gorau’r byd, bydd y CDE yng Nghymru yn cynnwys cynwysyddion untro (ar gyfer ailgylchu), a chyflwyno cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio yn raddol. Bydd hyn yn gweithio ochr yn ochr â pholisïau a rheoliadau eraill fel y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu (pEPR), yn ogystal â'r cynlluniau CDE eraill sydd wedi'u cynllunio yng ngwledydd eraill y DU.

Un o brif amcanion yr ymgynghoriad hwn yw casglu eich safbwyntiau ar sut y bydd ein CDE yn cynnwys elfen ailddefnyddio mewn ffordd gadarn sy’n arwain at fanteision clir i Gymru. Wrth wneud hyn, bydd angen i’r cynllun adeiladu ar ein cynnydd ym maes ailgylchu hyd yn hyn a bod yn hyblyg er mwyn ymgorffori newidiadau yn y dyfodol, megis technoleg newydd a chynnydd yn y mathau a’r niferoedd o gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio sydd mewn cylchrediad.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth i sefydlu'r CDE yng Nghymru a deddfwriaeth ddilynol, a fydd yn cwmpasu'r darpariaethau manylach mewn perthynas ag ailddefnyddio.

**Eithriadau ar gyfer cynhyrchwyr cyfaint isel – gwydr yn y CDE**

Ar gyfer gwydr, rydym wedi clywed gan y diwydiant na fydd yr eithriad ar gyfer llinellau cynhyrchion sy'n rhoi llai na 5,000 o unedau ar y farchnad bob blwyddyn yn y CDE yn cefnogi cynhyrchwyr bach yn ddigonol.

Mewn ymateb, gan gydnabod y trefniadau sydd ar waith o dan y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynwaith, rydym yn cynnig dull gweithredu amgen, sef:

Byddai cynhyrchwyr sydd eisoes yn gymwys ar gyfer yr eithriad cyfaint isel o dan y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynwaith (pEPR) (y rhai sy'n gyfrifol am lai na 25 tunnell o becynwaith bob blwyddyn) hefyd yn cael eu heithrio o'r CDE. Fodd bynnag, ni fyddai'r eithriad CDE hwn yn berthnasol i gynhyrchwyr bach sy'n gyfrifol am fwy na 25 tunnell o becynwaith bob blwyddyn ac nad ydynt yn gorfod cydymffurfio â chymaint o ofynion o dan y pEPR.

Mae'r cynnig hwn yn sicrhau bod eithriad gwydr y CDE yn gyson â throthwyon pEPR, gan ddarparu mwy o gymorth penodol i gynhyrchwyr bach. Fodd bynnag, wrth wneud hyn, ni fyddai'n creu eithriadau newydd nac yn tanseilio gweithrediad effeithiol y cynllun.

Cwestiwn 1. Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o eithrio cynhyrchion gwydr o'r CDE ar gyfer cynhyrchwyr sy'n bodloni'r trothwy eithriad cyfaint isel o dan Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynwaith (pEPR)?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod
- Rhowch fanylion ar gyfer eich ymateb: Testun rhydd

## Y llwybr tuag at ailddefnyddio

Bydd y CDE yng Nghymru yn datblygu ein taith tuag at economi gylchol trwy helpu i gyflwyno cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio ochr yn ochr ag ailgylchu cynwysyddion untro. Rydym yn bwriadu creu system o reolau o'r enw "fframwaith

rheoleiddio", a fydd yn ei gwneud yn ofynnol dros amser i gynyddu'r gyfran o gynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio sydd ar gael i'w gwerthu.

Bydd cynllun o'r enw "map trywydd ailddefnyddio" yn cael ei greu er mwyn dangos sut y bydd Cymru yn newid i ddefnyddio cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio, yn unol â'r targedau sy'n cael eu gosod yn y fframwaith rheoleiddio. Bydd y map trywydd yn esbonio'r mathau o gynwysyddion diodydd a fydd yn cael eu targedu i'w hailddefnyddio dros amser, a bydd yn ystyried y canlynol:

- Pob math o becynwaith (poteli diodydd gwydr, poteli diodydd PET plastig a chaniau diodydd alwminiwm)
- Pob math o ddiodydd: cwrw (gan gynnwys seidr ac opsiynau alcohol isel/dim alcohol), diodydd ysgafn, dŵr potel, gwin a gwirodydd
- Cynwysyddion o feintiau gwahanol ar gyfer diodydd rhwng 150ml a 3litr
- Y mannau lle mae diodydd yn cael eu gwerthu neu eu hyfed (siopau, tafarndai, gwestai, bwytai, caffis ac arlwyo)

Rydym yn credu bod y diwydiant diodydd (wedi'i gydlynu gan Sefydliad Rheoli Ernes) yn y sefyllfa orau i ddatblygu'r map trywydd ailddefnyddio, ac y bydd yn sicrhau ei fod yn cael ei lywio gan arbenigedd y diwydiant ac yn hyrwyddo gwaith arloesol.

Cwestiwn 2. Ydych chi'n cytuno y dylai'r diwydiant diodydd ddatblygu'r map trywydd ailddefnyddio, wedi'i gydlynu gan Sefydliad Rheoli Ernes (DMO)?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod
- Rhowch fanylion ar gyfer eich ymateb: Testun rhydd

## Fframwaith rheoleiddio - targedau ar gyfer cynyddu cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio

Mae gwledydd eraill, yn enwedig yn Ewrop, wedi gosod targedau ar gyfer cyfran y cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio sydd ar gael ar y farchnad. Er enghraifft, mae cyfran y farchnad o gynwysyddion diodydd plastig PET a gwydr y gellir eu hailddefnyddio yn uchel yn yr Almaen; mae 50% o'r holl gynwysyddion diodydd sy'n cael eu rhoi ar y farchnad[13] yn gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio. Yn Latfia, mae 15% o'r holl gynwysyddion diodydd yn gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio, gan gynnwys 67% o boteli diodydd gwydr[14].

[13] Mae 50% o gynwysyddion diodydd sydd wedi'u cynnwys yn CDE yr Almaen yn gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio. https://www.reloopplatform.org/global-deposit-book-2024/

[14] Mae 15% o gynwysyddion diodydd sydd wedi'u cynnwys yn CDE Latfia yn gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio. https://www.reloopplatform.org/global-deposit-book-2024/ Mae gwybodaeth sydd wedi'i rhannu gan weithredwr cynllun Latfia yn dangos bod 67% o boteli gwydr sydd wedi'u cynnwys yn CDE Latfia yn boteli y gellir eu hailddefnyddio. Nid yw gwin (gan gynnwys gwin pefriog a gwin ffrwythau), gwirod caled, llaeth na chynhyrchion llaeth wedi'u cynnwys yng nghwmpas y CDE.

Yn yr Undeb Ewropeaidd, daeth deddf o’r enw y Rheoliad Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith (PPWR) i rym ym mis Chwefror 2025. Mae'r fframwaith hwn yn gosod targedau ar gyfer faint o becynwaith diodydd sy'n gorfod bod yn ddeunydd y gellir ei ailddefnyddio. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau bod o leiaf 10% o becynwaith diodydd alcoholig a di-alcohol (ac eithrio llaeth, gwin, a rhai gwirodydd) yn ddeunydd pecynnu y gellir ei ailddefnyddio erbyn 2030, a bydd yn cynyddu i 40% erbyn 2040. O ganlyniad, bydd mwy o gynwysyddion diodydd ledled yr UE yn cael eu gwerthu mewn pecynwaith y gellir ei ailddefnyddio yn y dyfodol.

Yng Nghymru, fel rhan o’r CDE, rydym yn bwriadu cyflwyno targedau ailddefnyddio a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Sefydliad Rheoli Ernes (DMO) sicrhau bod canran sylfaenol o gynwysyddion diodydd yn cael eu casglu i'w hailddefnyddio, yn hytrach na'u defnyddio unwaith a'u hailgylchu. Bydd y targedau hyn yn cael eu mesur fesul eitem (yn hytrach nag yn ôl pwysau) a byddant yn cynyddu dros amser. Gosodir cerrig milltir penodol i'w cyrraedd erbyn 2031, 2035, a 2040. Mae'r dull hwn wedi'i gynllunio i gefnogi’r cynnydd mewn ailddefnyddio a lleihau gwastraff fel rhan allweddol o’r broses o newid Cymru i economi gylchol.

Yn ogystal â thargedau casglu, rydym yn bwriadu cyflwyno targedau ailddefnyddio a fydd yn berthnasol i gynhyrchwyr. Bydd y targedau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ailddefnyddio canran benodol o gynwysyddion diodydd sy'n cael eu rhoi ar y farchnad yng Nghymru. Bydd y targedau yn cael eu mesur fesul eitem a byddant yn cynyddu dros amser. Gosodir cerrig milltir penodol i'w cyrraedd erbyn 2031, 2035, a 2040. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod mwy o gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio ar gael i'w gwerthu, gan gynorthwyo'r broses o roi'r gorau i ddefnyddio pecynwaith untro a chyfrannu at economi gylchol.

Cwestiwn 3a: Targedau Casglu DMO ar gyfer Ailddefnyddio

Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru osod targedau casglu ar gyfer ailddefnyddio gorfodol ar gyfer DMOs yn 2031, 2035, a 2040, gan osod isafswm ar gyfer canran y cynwysyddion diodydd sydd i'w casglu ar gyfer eu hailddefnyddio?

- Ydw – rwy'n cytuno bod angen gosod targedau ar gyfer y dyddiadau hyn
- Ydw – rwy'n cytuno bod angen gosod targedau, ond ar gyfer dyddiadau gwahanol
- Na – ni ddylai Llywodraeth Cymru osod targedau
- Ddim yn gwybod

| **Targedau ar gyfer isafswm cyfran (canran) cynwysyddion diodydd sy'n cael eu casglu i'w hailddefnyddio** | **Blwyddyn darged** | | |
|---|---|---|---|
| | **2031** | **2035** | **2040** |
| 5% | | | |
| 10% | | | |
| 20% | | | |
| 30% | | | |
| 40% | | | |
| 50% | | | |
| Arall (testun rhydd) | | | |
| Ddim yn gwybod | | | |

Cwestiwn 3b: Targedau Ailddefnyddio Rhoi ar y Farchnad gan Gynhyrchwyr

Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru osod targedau ailddefnyddio gorfodol ar gyfer cynhyrchwyr erbyn 2031, 2035, a 2040, gan osod isafswm ar gyfer canran y cynwysyddion diodydd a roddir ar y farchnad y mae'n ofynnol eu hailddefnyddio?

- Ydw – rwy'n cytuno bod angen gosod targedau ar gyfer y dyddiadau hyn
- Ydw – rwy'n cytuno bod angen gosod targedau, ond ar gyfer dyddiadau gwahanol
- Nac ydw – ni ddylai Llywodraeth Cymru osod targedau
- Ddim yn gwybod

Os ydych chi wedi ateb 'Nac ydw', peidiwch ag ymateb i gwestiynau 4 a 5 ac ewch ymlaen i'r adran 'Cefnogi'r newid i gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio'.

Cwestiwn 4. Ydych chi'n meddwl y dylai'r CDE gynnwys un targed ailddefnyddio ar gyfer yr holl gynhwysyddion diodydd, neu darged ar wahân ar gyfer pob math o ddeunydd? (e.e. targed ar gyfer poteli plastig PET, targed gwahanol ar gyfer poteli gwydr, ac un arall ar gyfer caniau alwminiwm a dur)

| **Targedau ar gyfer isafswm cyfran (canran) o ddiodydd sy'n cael eu casglu mewn cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Un targed ar gyfer holl gynwysyddion diodydd y CDE | | | |
| Targedau ar wahân ar gyfer pob math o ddeunydd | | | |

Rhowch fanylion ar gyfer eich ymateb: Testun rhydd

O ystyried bod perfformiad ailgylchu Cymru eisoes yn dda, mae angen sicrhau bod targedau yn cael eu gosod ar gyfradd a fydd yn gwella perfformiad ailgylchu yn erbyn y cyfraddau ailgylchu sylfaenol yng Nghymru. Fodd bynnag, cynigir gosod targedau cychwynnol o 70%, 80% a 90% ar gyfer tair blynedd gyntaf y cynllun. Fodd bynnag, ni fydd y targedau hyn yn berthnasol i gynwysyddion gwydr tra bod gwerth eu hernes yn 0c. Mae'r targedau dros dro hyn yn gyson ag ymgyngoriadau blaenorol ac maent yn cyd-fynd â'r dull gweithredu ar gyfer y CDE yng ngweddill y DU. Fodd bynnag, ar ôl y tair blynedd gyntaf bydd angen cyflawni ar lefel sy’n gyson â chynlluniau CDE gorau’r byd. Bydd angen i’r DMO sefydlu rhwydwaith o fannau dychwelyd sy'n hygyrch, yn hawdd i bobl eu defnyddio, ac sy'n bodloni safonau'r Gymraeg, gan ei gwneud hi'n hawdd i ddinasyddion ddychwelyd eu cynwysyddion a helpu i gyrraedd y targed cyfradd dychwelyd.

Cwestiwn 5: Ar ba lefel y dylid y gosod y targed ar ôl 2030 er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cyflawni cyfradd ailgylchu sy’n gyson â’r gorau yn y byd?

- Rhowch fanylion ar gyfer eich ateb: Testun rhydd

Cwestiwn 6: Adeg cyflwyno cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio, a ddylai cyfanswm y cynwysyddion (untro a rhai y gellir eu hailddefnyddio) gyfrannu at yr un targed?

- Dylai – dylai'r cynwysyddion diodydd untro neu'r cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio gyfrannu at yr un targed cyfradd dychwelyd.
- Na ddylai – dylid gosod targedau cyfraddau dychwelyd ar wahân ar gyfer cynwysyddion untro a chynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio
- Ddim yn gwybod
- Rhowch fanylion ar gyfer eich ymateb: Testun rhydd

Cwestiwn 7: Pan fydd cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu cyflwyno i'r CDE, a ddylai eu targed dychwelyd gynyddu dros y blynyddoedd cyntaf?

- Dylai, dylid gosod targed dychwelyd ar gyfer cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio sy'n cynyddu dros 3 blynedd
- Dylai, dylid gosod targed dychwelyd ar gyfer cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio sy'n cynyddu dros 5 blynedd
- Na ddylai, ni ddylai'r targed dychwelyd ar gyfer cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio gynyddu dros y blynyddoedd cyntaf.
- Ddim yn gwybod
- Rhowch fanylion ar gyfer eich ymateb: Testun rhydd

## Cynorthwyo'r newid i gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio

### Pontio o boteli gwydr untro i boteli gwydr y gellir eu hailddefnyddio

Mae cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio mewn CDE wedi'u dylunio'n benodol i gael eu defnyddio, eu casglu, eu glanhau a'u hail-lenwi sawl gwaith, ac i wneud hyn mae angen systemau i'w cludo, didoli a glanhau fel bod modd eu hailddefnyddio. Fel arfer, maen nhw'n cael eu gwneud o wydr, ond mae rhai cynwysyddion wedi'u gwneud o blastig PET ac alwminiwm.

Roedd ymgyngoriadau blaenorol ar lefel y DU ar CDE yn dangos cefnogaeth gadarn i gynnwys cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio, ac roedd 73% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai cynwysyddion diodydd gwydr gael eu hailddefnyddio i’w hail-lenwi yn hytrach na'u hailgylchu.

Mae amrywiaeth o ddiodydd yn cael eu pecynnu mewn gwydr, gan gynnwys cwrw, diodydd ysgafn, gwin a gwirodydd. Mae nifer o wledydd eraill sydd wedi cyflwyno CDE wedi dechrau trwy gynnwys detholiad cychwynnol o gynwysyddion cyn ychwanegu rhagor dros amser. Fel arfer, mae diodydd ysgafn, cwrw a seidr yn cael eu cynnwys o’r dechrau ac mae gwinoedd a gwirodydd yn cael eu hychwanegu yn ddiweddarach.

Rydym eisiau gwybod ai cyflwyno mathau penodol o gynwysyddion diodydd gwydr yn raddol i'r CDE yn unol â’r hyn sydd wedi digwydd mewn gwledydd eraill fyddai’r ffordd orau o helpu'r newid tuag at ailddefnyddio cynwysyddion. Byddem yn ystyried amserlen o dair blynedd ar y mwyaf i gyflwyno gwahanol fathau o ddiodydd yn raddol os yw'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio.

Cwestiwn 8: A fyddai ehangu'n raddol yr ystod o ddiodydd sydd wedi'u pecynnu mewn poteli gwydr i'r CDE yn ei gwneud hi'n haws i'r diwydiant newid i becynwaith y gellir ei ailddefnyddio?

| **Math o ddiod sydd wedi'i phecynnu mewn gwydr** | **Na fyddai - dylid eu cynnwys o'r dechrau** | **Byddai – dylid sefydlu cyfnod pontio hyd at 3 blynedd** | **Ddim yn gwybod** | **Sut y byddai'n cynorthwyo'r newid tuag at ailddefnyddio? (Testun rhydd)** |
|---|---|---|---|---|
| Cwrw a seidr gan gynnwys opsiynau alcohol isel/dim alcohol | | | | |
| Diodydd ysgafn | | | | |
| Gwin gan gynnwys opsiynau alcohol isel/dim alcohol | | | | |
| Gwirodydd* gan gynnwys opsiynau alcohol isel/dim alcohol | | | | |

* Cryfder alcohol cyfaint 15% neu uwch

## Cynwysyddion eraill a allai gynorthwyo'r newid i gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio

Mae sawl gwlad sydd â CDE wedi ehangu eu cynlluniau dros amser - naill ai drwy gynnwys mwy o fathau o ddiodydd o fewn fformatau cynwysyddion presennol neu drwy ychwanegu mathau newydd o gynwysyddion yn gyfan gwbl. Mae'r ehangu hyn wedi eu helpu i gyflawni cyfraddau dychwelyd ac ailddefnyddio uchel. Er enghraifft:

- Ehangodd Denmarc eu CDE ar gyfer alcopops, seidr a diodydd egni yn 2005, ar gyfer diodydd nad ydynt yn garbonedig fel dŵr a the iâ yn 2008, ac ar gyfer sudd ffrwythau a thewsudd yn 2020. Cyfradd ddychwelyd CDE: 92%
- Ychwanegodd y Ffindir boteli plastig PET yn 2008 a photeli gwydr yn 2010. Cyfradd ddychwelyd CDE: 97%
- Ehangwyd y cynllun yn yr Iseldiroedd i gynnwys poteli plastig bach yn 2021. Cyfradd ddychwelyd CDE: 68%
- Ychwanegodd Croatia laeth a chynhyrchion llaeth a photeli 200ml yn 2021. Cyfradd ddychwelyd CDE: 79%

- Ychwanegodd yr Almaen laeth a chynhyrchion llaeth yn 2024. Cyfradd ddychwelyd CDE: 97%

Yng Nghymru, yr ystod sylfaenol o gynwysyddion a fydd yn cael eu cynnwys yn y CDE yw poteli plastig PET, poteli gwydr a chaniau alwminiwm a dur rhwng 150ml a 3 litr. Mewn rhai gwledydd, mae cynwysyddion pwdin gwydr y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu cynnwys hefyd. Yn y dyfodol, mae'n bosibl y gwelwn ni fathau newydd o gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu cyflwyno.

Cwestiwn 9: Er mwyn cyrraedd targedau ailddefnyddio uchel, a ddylid ehangu’r CDE yng Nghymru yn y dyfodol i gynnwys:

- **Mathau ychwanegol o gynwysyddion** (e.e gwahanol ddefnyddiau, meintiau neu fformatau y gellir ailddefnyddio)?
- **Mathau ychwanegol o ddiodydd** o fewn y mathau o gynwysyddion presennol?
- **Y ddau**?

Rhowch fanylion ar gyfer eich ymateb: Testun rhydd

| | **Mathau o gynwysyddion (Testun Rhydd)** |
|---|---|
| **I'w hychwanegu** | |
| **Ddim i’w cynnwys** | |

## Ysgogiadau eraill i gynorthwyo'r newid i gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio

Mae gwaith ymchwil Llywodraeth Cymru i fodelau CDE rhyngwladol ar gyfer cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio yn dangos mai gosod targedau gofynnol ar gyfer casglu cynwysyddion i'w hailddefnyddio yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gymell cynhyrchwyr i roi'r gorau i ddefnyddio deunydd pecynnu untro.

Mae cyfleoedd eraill i annog cynhyrchwyr i ddefnyddio cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio yn cynnwys gostwng ffioedd ar gyfer cynhyrchwyr sy'n defnyddio cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio, cyfyngu ar gynhyrchion y gellir eu gwerthu mewn cynwysyddion untro, a darparu cymorth technegol neu ariannol i helpu cynhyrchwyr i newid i gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio.

Cwestiwn 10: Pa rai o'r mesurau canlynol (neu fesurau eraill) a fyddai'n fwyaf effeithiol er mwyn annog a chefnogi cynhyrchwyr i ddefnyddio cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio yng Nghymru?

| **Mesurau** | **Effeithiol** | **Aneffeithiol** | **Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| Ffioedd is ar gyfer cynhyrchwyr sy'n defnyddio cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio | | | |
| Cyfyngiadau ar gynhyrchion y gellir eu gwerthu mewn cynwysyddion untro | | | |
| Cymorth technegol neu ariannol er mwyn helpu cynhyrchwyr i newid i gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio | | | |

**Arall:** Rhowch fanylion ar gyfer eich ymateb: Testun rhydd

## Fframwaith rheoleiddio – safonau gofynnol ar gyfer ailddefnyddio

Mae fframwaith rheoleiddio yn gyfres o reolau a chanllawiau y mae'n rhaid i sefydliadau eu dilyn er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel ac yn deg. Fel rhan o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer y CDE yng Nghymru, rydym yn bwriadu gosod safonau gofynnol clir y mae'n rhaid i'r system ar gyfer cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio eu bodloni. Bydd hyn yn sicrhau bod y diwydiant yn gallu helpu i sicrhau'r manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol angenrheidiol.

Mae'r safonau gofynnol arfaethedig wedi'u disgrifio yn y tabl isod:

| Safon ofynnol arfaethedig | Diben y safon |
|---|---|
| Rhaid defnyddio cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio o leiaf 8 gwaith ar gyfartaledd (waeth beth fo'r math o ddeunydd). | Sicrhau bod cynwysyddion yn cael eu dychwelyd a'u hailddefnyddio sawl gwaith a'u bod yn cael eu trin yn ofalus wrth brosesu a chludo. |
| Rhaid ailgylchu cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio sydd wedi'u difrodi, eu torri neu nad ydynt yn addas i'w hailddefnyddio bellach. Yn ddelfrydol, dylid eu hailgylchu fel deunydd pecynnu bwyd a diod newydd. | Sicrhau bod cymaint o ddeunyddiau â phosibl sydd wedi'u hailgylchu ar gael ar gyfer pecynwaith bwyd a diod. Bydd hyn yn lleihau'r angen am ddeunyddiau newydd ac yn cynyddu'r defnydd o ddeunyddiau sydd wedi'u hailgylchu mewn pecynwaith. |
| Mae angen i DMO sbarduno'r defnydd o boteli safonedig y gellir eu hailddefnyddio. | Gwneud y system ailddefnyddio yn symlach, yn rhatach ac yn well i'r amgylchedd gan osgoi cyfyngu ar y diwydiant yn ormodol. |

## Sawl gwaith y dylid defnyddio cynhwysydd y gellir ei ailddefnyddio?


Mewn systemau eraill ar gyfer ailddefnyddio cynwysyddion diodydd, gan gynnwys systemau yn Ewrop, gall y nifer cyfartalog o droeon y caiff cynwysyddion diodydd gwydr eu hailddefnyddio fod mor uchel â 33. Llwyddir i wneud hyn oherwydd cyfradd ddychwelyd uchel o 97% (y Ffindir, Sensoneo[15]).

Mae'r graff isod yn dangos beth sy'n digwydd os bydd 90% o swp newydd o gynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu dychwelyd bob tro y maen nhw'n cael eu defnyddio.

Yn yr enghraifft hon, ar ôl y defnydd cyntaf, mae 88% o'r cynwysyddion yn parhau i gael eu defnyddio. Ar ôl 5 defnydd, mae 53% yn parhau i gael eu defnyddio, ac ar ôl deg defnydd, mae 28% yn parhau i gael eu defnyddio. Ar gyfartaledd, mae pob cynhwysydd yn cael ei ddefnyddio 8.5 gwaith cyn bod angen ei ailgylchu oherwydd ansawdd annigonol neu ddifrod.

[15] https://sensoneo.com/waste-library/deposit-return-schemes-overview-europe/

**Ffigur 1: Enghraifft o gynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio gyda chyfradd dychwelyd o 90% fesul cylch defnydd a methiant ansawdd o 2%**




Mae'r enghraifft hon yn rhagdybio nad yw 2% o'r cynwysyddion yn bodloni safonau ansawdd a bod angen eu tynnu a'u hailgylchu.

Bydd angen i DMO gasglu a chyflwyno data i asiantaeth orfodi Llywodraeth Cymru er mwyn dangos sawl gwaith y mae cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu defnyddio ar gyfartaledd. Mae enghreifftiau o fonitro nifer y defnyddiau mewn cynlluniau eraill yn cynnwys:

- Nodi faint o gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio sy'n cael eu hychwanegu at y cynllun i ddisodli'r rhai nad ydynt yn cael eu dychwelyd neu nad ydynt yn addas i'w hailddefnyddio bellach
- Neilltuo cod unigryw ar gyfer pob cynhwysydd a chyfrif sawl gwaith y mae'n cael ei ddefnyddio (er enghraifft, sawl gwaith y caiff ei ail-lenwi)
- Marcio'r cynwysyddion pan fyddant yn cael eu dychwelyd a gwirio yn rheolaidd faint o farciau sydd gan bob cynhwysydd

Cwestiwn 11. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio’ch barn ar y targedau ar gyfer sawl gwaith y dylid defnyddio cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio o fewn y CDE fel y disgrifir uchod:

| **Opsiynau** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Rhowch fanylion ar gyfer eich ymateb** |
|---|---|---|---|
| Isafswm targed o 8 defnydd ar gyfer pob deunydd | | | |
| Isafswm targed sy'n briodol i'r deunydd | | | |
| Ni ddylai'r isafswm targed ar gyfer pob deunydd fod yn 8 (nodwch os gwelwch yn dda) | | | |
| Ni ddylid gosod targed | | | |
| Ddim yn gwybod | | | |

## Cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes

Pan fydd cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio wedi cael eu difrodi, eu torri neu nad ydynt yn bodloni'r safonau ar gyfer pecynwaith bwyd neu ddiod mwyach, maent wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac mae angen eu tynnu o'r system ailddefnyddio.

Rydym yn cynnig y dylid ailgylchu cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes, yn ddelfrydol i greu pecynwaith gradd bwyd a diod newydd, er mwyn cadw deunydd yn y cylch pecynwaith cyn hired â phosibl.

Bydd angen i DMO ddatblygu Cynllun Gweithredol sy'n disgrifio sut y bydd yn sicrhau y bydd cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes yn cael eu hailgylchu i greu deunydd pecynnu gradd bwyd a diod newydd.

## Safoni poteli

Mae potel safonedig mewn CDE yn golygu bod diodydd gwahanol yn cael eu gwerthu mewn poteli o'r un maint a siâp, sy'n ei gwneud hi'n haws casglu, glanhau ac ail-lenwi'r poteli i'w hailddefnyddio. Gall y dull hwn arbed arian i gynhyrchwyr ac mae'n well i'r amgylchedd oherwydd bod modd ailddefnyddio poteli yn amlach ac yn fwy effeithlon.

Mae cynwysyddion safonedig neu gyffredinol y gellir eu hailddefnyddio wedi'u cynllunio i sicrhau bod cynhyrchwyr neu frandiau yn gallu defnyddio'r un siâp a maint ar gyfer eu cynhyrchion, a pharhau i ddefnyddio eu labeli a'u brandio eu hunain. Gall y cynwysyddion hyn fod yn eiddo i gynhyrchwyr unigol, cael eu rhannu mewn grŵp (cronfa a reolir) neu gael eu rhentu gan gyflenwr fel gwasanaeth rhentu economi gylchol.

Yn Latfia, mae 27 o gynhyrchwyr wedi cydweithio i ddefnyddio'r un cynllun potel safonedig. Mae hyn yn golygu bod tua 70% o'r poteli y gellir eu hailddefnyddio sydd ar gael i'w gwerthu yr un siâp a maint, sy'n symleiddio'r broses ddidoli a golchi.




*Delwedd 2 - Poteli gwydr safonedig clir y gellir eu hailddefnyddio a ddefnyddir yn CDE Latfia*




*Delwedd 3 - Poteli gwydr safonedig brown y gellir eu hailddefnyddio a ddefnyddir yn CDE Latfia*

Yn yr Almaen, mae grwpiau o gynhyrchwyr yn rhannu poteli safonedig mewn cronfa poteli. Yn y cronfeydd hyn, mae pawb yn cytuno ar yr un safonau ansawdd, ac mae'r gost o ychwanegu poteli newydd at y gronfa yn cael ei rhannu rhwng y cynhyrchwyr.

Mae Sefydliad Ellen MacArthur wedi tynnu sylw at fanteision defnyddio poteli safonedig a chronfeydd poteli yn ei adroddiad: Unlocking a Reuse Revolution - Scaling Returnable Packaging[16]. Nodir bod rhai o'r prif fanteision yn cynnwys y canlynol:

- Costau is ar gyfer prynu poteli
- Costau is ar gyfer didoli a glanhau
- Prosesau casglu, didoli, glanhau ac ail-lenwi mwy effeithlon
- Angen am lai o boteli yn gyffredinol yn y system
- Pellteroedd cludo byrrach
- Haws adnabod pecynwaith y gellir ei ailddefnyddio
- Haws i bobl ddychwelyd cynwysyddion (er enghraifft, poteli sy'n pentyrru'n hawdd neu y gellir eu rhoi mewn cratiau)
- Poteli parod y gellir eu dychwelyd a'u hailddefnyddio y mae cynhyrchwyr bach yn gallu eu defnyddio heb gostau nac ymdrech ychwanegol.

---

[16] Unlocking-a-**reuse**-revolution-Scaling-Returnable-Packaging.pdf

Rydym yn cydnabod y potensial sylweddol y mae poteli safonedig a chronfeydd poteli yn ei gynnig o ran cefnogi system effeithlon y gellir ei hehangu ar gyfer cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio a darparu manteision i gynhyrchwyr a defnyddwyr. Felly, rydym yn disgwyl i DMO a'r diwydiant gydweithio i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Fodd bynnag, yn unol â chynlluniau rhyngwladol, bydd angen i'r CDE gefnogi'r broses o gasglu poteli ansafonol ar gyfer cynhyrchwyr sy'n eu defnyddio.

Cwestiwn 12. Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn ofynnol i DMO gymell y defnydd o boteli safonedig a chronfeydd poteli a reolir (yn hytrach na bod Llywodraeth Cymru yn gosod isafswm targedau gorfodol ar gyfer eu defnydd)?

- Ydw - dylai DMO gymell
- Nac ydw – dylai Llywodraeth Cymru osod targedau
- Nac ydw - dull arall o hyrwyddo ailddefnyddio
- Ddim yn gwybod
- Rhowch fanylion ar gyfer eich ymateb: Testun rhydd

## Safonau gofynnol eraill

Cwestiwn 13. A oes unrhyw safonau gofynnol eraill y gellid eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod y system ailddefnyddio yn cyflawni amcanion economi gylchol, gan gynnwys y newid i ddim gwastraff a charbon sero net? Os oes, nodwch y manylion isod.

- Testun rhydd

## Trin a logisteg

### Daliedyddion ar gyfer ymdrin â chynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio

Bydd angen ymdrin â chynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio yn ofalus er mwyn atal difrod a sicrhau bod cymaint ohonynt â phosibl yn cael eu dychwelyd i'w hailddefnyddio. Mewn rhai gwledydd sydd â chynlluniau ailddefnyddio cynwysyddion diodydd, mae siopau yn gwerthu diodydd mewn cratiau poteli y gellir eu hailddefnyddio. Mae cwsmeriaid yn defnyddio'r cratiau hyn i fynd â'u poteli gwag y gellir eu hailddefnyddio i fannau dychwelyd. Oherwydd bod maint a siâp poteli y gellir eu hailddefnyddio yn amrywio, mae angen gwahanol fathau o gratiau. Mae rhai cynlluniau a threialon wedi defnyddio bagiau poteli a bocsys plastig.

Rydym yn cynnig mai’r diwydiant, wedi’i gydlynu gan y DMO, ddylai benderfynu ai cratiau, bagiau poteli, bocsys neu ddull arall ddylai gael ei ddefnyddio i drin a storio cynwysyddion diodydd sydd wedi’u dychwelyd.

Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno y dylai'r diwydiant benderfynu a ddylid darparu cratiau, bagiau neu focsys er mwyn dychwelyd poteli y gellir eu hailddefnyddio?

- Cytuno
- Nac ydw – dylai Llywodraeth Cymru benderfynu
- Nac ydw - arall
- Ddim yn gwybod
- Rhowch fanylion ar gyfer eich ymateb: Testun rhydd

**Ffioedd trin gweithredwyr mannau dychwelyd**

Pan fydd dinasyddion yn dychwelyd cynwysyddion diodydd gwag i fannau dychwelyd, byddant yn cael eu storio a'u casglu mewn swmp i gael eu prosesu. Bydd angen trin a storio cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio yn ofalus fel nad ydynt yn cael eu difrodi na'u torri.

Bydd angen i DMO dalu ffi i'r busnesau neu'r sefydliadau sy'n gweithredu'r mannau dychwelyd. Rydym yn cynnig y dylai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i DMO osod y ffioedd trin gyda manwerthwyr a'r rheoleiddiwr. Bydd angen i'r ffi ystyried cost arwynebedd llawr y man dychwelyd, cost prynu neu rentu cyfarpar (fel RVMs), a gwerth amser staff sy'n rheoli'r cynwysyddion diodydd sydd wedi'u dychwelyd. Dylai'r gofynion hyn adlewyrchu'n deg unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o drin cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio.

Cwestiwn 15: Ydych chi'n cytuno y bydd y dull arfaethedig yn sicrhau bod ffi trin y gweithredwr yn y man dychwelyd yn adlewyrchu'r gost ychwanegol o reoli cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio?

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod
- Rhowch fanylion ar gyfer eich ymateb: Testun rhydd

**Prosesu cynwysyddion i'w hailddefnyddio**

Unwaith y mae dinasyddion wedi mynd â chynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio i fannau dychwelyd, bydd angen iddynt gael eu cludo i gyfleuster didoli a golchi ac yna eu dychwelyd i gynhyrchwyr/llenwyr i'w hail-lenwi, eu hail-labelu a'u dosbarthu i'w gwerthu.




*Delwedd 3 – Llun yn dangos prosesau a seilwaith CDE sy'n cynnwys elfen ailddefnyddio.*

Bydd cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu didoli yn ôl siâp, maint a deunydd cyn cael eu hanfon i gyfleusterau golchi diwydiannol. Mewn gwledydd eraill, mae'r cyfleusterau hyn yn defnyddio dulliau gwahanol i sicrhau eu bod yn bodloni safonau'r diwydiant, gan gynnwys y canlynol:

- Defnyddio dyluniadau a thechnoleg glyfar i arbed ynni a dŵr, fel glanhau uwchsain ac ailddefnyddio dŵr yn ystod y broses
- Defnyddio camau glanhau gwahanol i olchi a sychu cynwysyddion gan gynnwys hydoddiant costig a dull hidlo uwch i gael gwared ar gapiau, labeli, germau, baw, sebon a thocsinau
- Gwirio'r cynwysyddion trwy ddefnyddio offer fel sganwyr pelydr-x er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio eto ac i gael gwared ar unrhyw gynwysyddion sydd angen eu hailgylchu
- Storio a chludo cynwysyddion glân mewn pecynnau wedi'u selio a'u holrhain yn unol â safonau diogelwch bwyd a diod

- Sicrhau bod unrhyw ddŵr sy'n gadael y cyfleuster yn ddiogel ac yn bodloni safonau amgylcheddol.

Cwestiwn 16: Sut mae busnesau, llywodraeth leol a'r trydydd sector yng Nghymru yn gallu cefnogi DMO i gasglu, cludo a phrosesu cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio?

| Math o sefydliad | Casglu | Cludo | Prosesu | Testun rhydd |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdodau lleol | | | | |
| Sefydliadau eraill y sector cyhoeddus | | | | |
| Cwmnïau rheoli gwastraff preifat | | | | |
| Busnesau preifat eraill | | | | |
| Elusennau, grwpiau amgylcheddol a sefydliadau trydydd sector eraill | | | | |

Er mwyn sefydlu CDE, bydd angen adeiladu cyfleusterau a systemau newydd, er enghraifft er mwyn trin a chludo'r cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio er mwyn eu hail-lenwi. Mae'n bwysig bod y datblygiadau newydd hyn wedi'u dylunio i leihau'r effaith amgylcheddol.

Mae ystyriaethau amgylcheddol yn cynnwys y deunyddiau a ddefnyddir i adeiladu cyfleusterau newydd, faint o ynni a dŵr maen nhw'n eu defnyddio, y cemegau a ddefnyddir ar gyfer glanhau, ansawdd y dŵr sy'n cael ei ryddhau o'r cyfleusterau, pa mor bell y mae angen cludo'r cynwysyddion, ac a oes modd addasu a defnyddio adeiladau ac offer presennol.

## Lefelau ernes

Mae gosod yr ernes gywir yn ffactor allweddol ar gyfer llwyddiant unrhyw CDE. Mae profiad o wledydd eraill yn dangos bod swm yr ernes yn effeithio ar y tebygolrwydd y bydd pobl yn dychwelyd eu cynwysyddion. Mae rhai gwledydd yn defnyddio'r un ernes ar gyfer pob cynhwysydd, tra bod eraill yn gosod symiau gwahanol yn dibynnu ar faint y cynhwysydd a’i ddeunydd crai, ac a yw'n gynhwysydd untro neu'n gynhwysydd y gellir ei ailddefnyddio.

Dyma enghreifftiau o lefelau ernesau mewn gwledydd eraill:

| | **Ernes cynwysyddion untro**[17] | **Ernes cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio** |
|---|---|---|
| Yr Almaen (Ewro)[18],[19] | cyfradd safonol o €0.25 | Poteli cwrw gwydr (pob maint): €0.08<br>Poteli cwrw gwydr gyda chaead siglo: €0.15<br>Poteli dŵr mwynol gwydr / plastig PET: €0.15 neu €0.25<br>Poteli diodydd sudd neu ddiodydd ysgafn gwydr / plastig PET €0.15<br>Poteli gwin gwydr 1L: €0.02 neu €0.03 |
| Latfia (Ewro)[20] | cyfradd safonol o €0.10 | cyfradd safonol o €0.10 |
| Y Ffindir (Ewro)[21] | Plastig ≤350ml: €0.10, Plastig 351ml i 999ml: €0.20, Plastig ≥1L: €0.40, Metel: €0.15, Gwydr: €0.10 | Gwydr 300ml i 350ml: €0.10<br>Plastig 500ml: €0.20<br>Plastig 1L a 1.5L: €0.40 |
| Denmarc (Krone Denmarc)[22] | Metel, gwydr <1L: 1DKK,<br>Plastig <1L: 1.5DKK,<br>Metel, plastig, gwydr 1-20L: 3DKK | Gwydr <500ml = 1DKK<br>Gwydr >500ml = 3DKK<br>Plastig <1L = 1.5DKK<br>Plastig >1L = 3DKK |

Rydym yn cynnig y dylai DMO benderfynu ar symiau blaendal, ac eithrio lle mae gwerthoedd blaendal penodol—megis y blaendal o 0c ar gyfer cynwysyddion gwydr a chynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio rhwng 2027 ac 1 Hydref 2030—wedi'u gosod yn uniongyrchol yn y rheoliadau. Er mwyn gwneud hyn, bydd disgwyl iddo ddefnyddio enghreifftiau o wledydd eraill, ystyried beth sy'n gweithio orau i Gymru, a gwneud gwaith monitro rheolaidd i sicrhau bod yr ernes yn effeithiol ac yn deg i ddinasyddion a busnesau.

[17] https://www.reloopplatform.org/wp-content/uploads/2023/05/RELOOP_Factsheet_Flat-and-Variable-Deposits_Jan-2023_Web.pdf
[18] https://www.bottlebill.org/index.php/current-and-proposed-laws/worldwide/germany
[19] https://dpg-pfandsystem.de/images/pdf/220105-DPG-Overview-beverages-3cols-S.pdf
[20] https://likumi.lv/ta/id/316731-depozita-sistemas-darbibas-noteikumi
[21] https://www.palpa.fi/beverage-container-recycling/deposit-refund-system/
[22] https://danskretursystem.dk/en/about-deposits/deposit-marks-and-amounts/

Cwestiwn 17. Sut ydych chi'n meddwl y dylai lefel yr ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio gymharu â chynwysyddion untro?

- Dylai'r ernes ar gyfer cynhwysydd y gellir ei ailddefnyddio fod yn uwch na'r ernes ar gyfer cynhwysydd untro
- Dylai'r ernes ar gyfer cynhwysydd y gellir ei ailddefnyddio fod yn is na'r ernes ar gyfer cynhwysydd untro
- Dylai'r ernes ar gyfer cynhwysydd y gellir ei ailddefnyddio fod yr un fath â'r ernes ar gyfer cynhwysydd untro
- Ddim yn gwybod
- Rhowch fanylion ar gyfer eich ateb

## Technoleg ac arloesi

Mae technoleg newydd fel codiau bar dau ddimensiwn (2D) (fel codau QR) yn gallu helpu i adnabod cynwysyddion unigol. Mae'r codiau bar hyn yn gallu storio gwybodaeth fanwl, fel ble cafodd y cynhwysydd ei werthu, ac a oes ernes wedi'i thalu a/neu ei hawlio. Mae'r dechnoleg hon eisoes yn dechrau cael ei defnyddio’n ehangach yn y diwydiant diodydd, a gallai helpu i leihau twyll yn y dyfodol trwy sicrhau nad yw pobl yn hawlio ernes ar gyfer cynwysyddion nad ydynt yn rhan o'r cynllun. Hefyd, mae'n gallu helpu rhyngweithredu rhwng y CDE yng Nghymru a'r cynlluniau yng ngwledydd eraill y DU.

Cwestiwn 18: Pa brosesau, technoleg a/neu ddulliau arloesol y gellid eu defnyddio i sicrhau bod CDE Cymru yn gweithio'n dda gyda chynlluniau eraill? Rhowch fanylion/enghreifftiau os oes modd.

| **Maes arloesi/technoleg** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** | **Manylion/enghreifftiau – testun rhydd** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu ac ymgysylltu | | | | |
| Labelu'r cynhwysydd | | | | |
| Sganio'r cod bar/cynhwysydd yn y mannau dychwelyd | | | | |
| Sganio'r cod bar/cynhwysydd yn rhywle arall | | | | |
| Olrhain cynwysyddion mewn ffordd arall | | | | |
| Rhannu data gyda chynlluniau eraill | | | | |
| Arall | | | | |

**Manteision y Cynllun Dychwelyd Ernes Gorau i Gymru**


Mae CDE sy’n cynnwys cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio a chynhwysyddion untro (yn unol â chynlluniau gorau'r byd) yn arwain at fwy o fanteision na CDE sy'n casglu cynwysyddion untro yn unig i'w hailgylchu:




Arbed adnoddau - bob tro mae cynhwysydd yn cael ei ailddefnyddio, mae'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd oherwydd bod angen llai o ddeunyddiau crai a bod cyflenwad mwy lleol a dibynadwy ohonynt.




Mwy nag ailgylchu – mae cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio yn enghraifft wirioneddol o economi gylchol lle mae'r cynnyrch yn cael ei ddefnyddio cyn hired â phosibl cyn bod angen ei ailgylchu.



Lleihau gwastraff – bydd llai o wastraff yn cael ei greu dros amser trwy ddisodli pecynwaith untro â chynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio.



Ôl-troed carbon llai – Trwy ddefnyddio mwy o gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio, ni fydd angen cynhyrchu cymaint o gynwysyddion untro newydd. Mae hyn yn lleihau allyriadau carbon o brosesau cynhyrchu ac ailgylchu cynwysyddion untro.



Arbedion cost – gall system ailddefnyddio, gan ddefnyddio'r cynwysyddion dro ar ôl tro, arwain at arbedion hirdymor i gynhyrchwyr. Yn ei dro, gallai hynny ostwng prisiau i gwsmeriaid dros amser.



Creu swyddi – mae cynnal system ailddefnyddio yn creu mwy o swyddi ym meysydd cludiant, didoli, golchi, gwirio ansawdd, cydymffurfio, monitro ac iechyd a diogelwch, gan greu mwy o swyddi gwyrdd i bobl.

Gall newid i economi gylchol helpu economi Cymru [23], gan greu swyddi 'gwyrdd', helpu i ymdrin â chostau cynyddol a sicrhau cyflenwad o ddeunyddiau ar gyfer y dyfodol.

[23] Llywodraeth Cymru. Ymgynghoriad ar y Strategaeth Mwy nag Ailgylchu chrome-extension://efaidnbmnnnibpcajpcglclefindmkaj/https:// https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-03/ymgynghori-strategaeth-economi-gylchol.pdf. Sefydliad Ellen MacArthur a Wrap (2013) Wales and the Circular Economy – Favourable system conditions and economic opportunities http://www.wrap.org.uk/node/17570


Trwy fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd hyn, gallwn symud tuag at gymdeithas decach, wyrddach a mwy llewyrchus:



Ystyr tecach yw defnyddio cyfran deg o adnoddau a sicrhau bod pawb yn derbyn gwasanaethau rheoli gwastraff o'r un ansawdd ledled Cymru.

Ystyr gwyrddach yw mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, lleihau allyriadau, a lleihau effeithiau amgylcheddol eraill.





Ystyr mwy llewyrchus yw sicrhau manteision newid i economi gylchol - ailddefnyddio ac ailgylchu mwy, gwneud cadwyni cyflenwi yn fyrrach ac yn fwy effeithlon, a chynorthwyo busnesau Cymru i lwyddo mewn marchnadoedd a diwydiannau newydd.

Cwestiwn 19. Sut mae Llywodraeth Cymru a Sefydliad Rheoli Ernes yn gallu sicrhau'r manteision mwyaf i Gymru o CDE ar gyfer cynwysyddion diodydd untro a chynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio?

| **Math o fantais** | **Mesurau i sicrhau'r manteision mwyaf i Gymru** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Manylion/ enghreifftiau – testun rhydd** |
|---|---|---|---|---|
| Cymdeithas decach | Sicrhau bod y cynllun mor hygyrch â phosibl a'i fod yn hawdd i'w ddefnyddio i bawb. | | | |
| | Creu cyfleoedd hyfforddi a galwedigaethol ar gyfer cymunedau yng Nghymru sydd â chyfraddau cyflogaeth isel. | | | |
| | Cefnogi achosion elusennol trwy roi ernesau. | | | |
| | Eraill | | | |
| Cymdeithas wyrddach | Cynnwys yr ystod ehangaf posibl o gynwysyddion i'w hailgylchu a'u hailddefnyddio. | | | |
| | Cyfleu'r manteision amgylcheddol er mwyn | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ysgogi cyfranogiad defnyddwyr: e.e. llai o allyriadau a llai o sbwriel. | | | |
| | Gosod isafswm targedau allyriadau amgylcheddol a/neu weithredol ar gyfer y CDE. | | | |
| | Eraill | | | |
| Cymdeithas fwy llewyrchus | Cymhellion i gynhyrchwyr newid o ddefnyddio cynwysyddion untro i gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio. | | | |
| | Cymhellion i leoli seilwaith mewn lleoliadau daearyddol a fydd yn cynyddu datblygiad economaidd yng Nghymru. | | | |
| | Cefnogi'r diwydiant/cyflenwyr lleol i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd tendro sydd ar gael gan DMO (e.e. cyfleoedd i is-gontractwyr). | | | |
| | Manteisio'n llawn ar gyfleoedd cyflogaeth a datblygu gyrfa sy'n gysylltiedig â seilwaith CDE. | | | |
| | Integreiddio â mentrau economi gylchol ehangach. | | | |
| | Eraill | | | |

Bydd DMO yn gyfrifol am sicrhau bod y CDE yn deg i gynhyrchwyr a manwerthwyr, a disgwylir iddo gynrychioli buddiannau busnesau bach a chanolig yn ogystal â busnesau mawr.

Cwestiwn 20: Sut gallwn ni sicrhau bod Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) yng Nghymru yn cael eu cefnogi a'u cynrychioli, a'u bod yn gallu elwa ar system ailddefnyddio ar gyfer cynwysyddion diodydd?

| **Cymorth i BBaChau** | | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Manylion/ enghreifftiau – testun rhydd** |
|---|---|---|---|---|
| Cynhyrchwyr diodydd sy’n BBaChau | Deunyddiau/sesiynau ymgysylltu penodol ar gyfer BBaChau yn ystod y cyfnod yn arwain at y lansiad. | | | |
| | Mynediad at gynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio cost isel sy'n bodloni'r safonau ansawdd gofynnol. | | | |
| | Seilwaith canolog ar gyfer didoli a golchi cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio. | | | |
| | Arall | | | |
| Manwerthwyr sy’n BBaChau | Deunyddiau/sesiynau ymgysylltu penodol ar gyfer BBaChau yn ystod y cyfnod yn arwain at y lansiad. | | | |
| | Cymorth ariannol i brynu seilwaith mannau dychwelyd a/neu ad-drefnu mannau manwerthu. | | | |
| | Casgliadau o fannau dychwelyd sy'n cyd-fynd ag anghenion o ran amlder er mwyn osgoi achosion o gynwysyddion yn pentyrru. | | | |
| | Arall | | | |
| BBaChau Eraill | Arall | | | |

Cwestiwn 21: Sut gallwn ni sicrhau bod cymunedau yng Nghymru yn elwa ar CDE ar gyfer cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio?

| **Manteision i gymunedau yng Nghymru** | **Ticiwch y blychau perthnasol** | **Arsylwadau** |
|---|---|---|
| Cefnogi digwyddiadau cymunedol lle mae nifer fawr o gynwysyddion yn cael eu casglu ac ernesau yn cael eu hawlio (fel digwyddiadau casglu sbwriel sy'n cael eu trefnu) | | |
| Creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi lleol | | |
| Cynnal gweithdai addysgol ar gyfer ysgolion a chymunedau | | |
| Integreiddio'r CDE â phrosiectau eraill sy'n cefnogi economi gylchol | | |
| Gwneud trefniadau i grwpiau lleol ymweld â chyfleusterau CDE, fel cyfleusterau golchi | | |

## Cyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd

Bydd angen cyfleusterau newydd ar gyfer CDE , er enghraifft ar gyfer didoli a golchi cynwysyddion i'w defnyddio dro ar ôl tro. Hefyd, bydd angen systemau trafnidiaeth ar gyfer y cynllun sy'n gallu cadw cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio mewn un darn pan fyddant yn cael eu hail-lenwi. Hefyd, bydd angen canolfannau sy'n cyfrif cynwysyddion cyn eu bod yn cael eu hailgylchu neu eu hailddefnyddio.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau deall sut y gallai'r cyfleoedd sy'n deillio o CDE sbarduno twf economaidd a swyddi gwyrdd yng Nghymru. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd hefyd i ddefnyddio seilwaith presennol i gynorthwyo'r newid i CDE. Yn ei dro, byddai hyn yn lleihau costau cychwynnol sefydlu'r cynllun ac yn hwyluso newid effeithlon yng Nghymru.

| **Cyfle** | **Beth mae hyn yn ei olygu** |
|---|---|
| DMO yng Nghymru yn sefydlu cyfleusterau didoli a golchi ar gyfer cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio | Mae cynwysyddion yn cael eu didoli a'u golchi yng Nghymru gan greu swyddi lleol a lleihau pellteroedd cludo. Nid oes angen i gynhyrchwyr unigol sefydlu cyfleusterau ar gyfer didoli a golchi cynwysyddion. |
| Cysylltu cyfleusterau CDE â phrosesau diwydiannol eraill | Er enghraifft, lleoli cyfleusterau golchi ger canolfannau data er mwyn iddynt ddefnyddio'r dŵr ar gyfer oeri cyn iddo gael ei arllwys (gyda chydsyniad). |

| | |
|---|---|
| Lleoli wrth ymyl cynhyrchwyr a llenwyr cynwysyddion | Lleihau costau cludiant ac allyriadau ar gyfer cynwysyddion glân. |
| Ffynonellau ynni adnewyddadwy | Er enghraifft, defnyddio gwres gwastraff o gyfleusterau diwydiannol cyfagos er mwyn gwresogi dŵr, neu ddefnyddio cyswllt uniongyrchol â ffynhonnell ynni adnewyddadwy i leihau effaith amgylcheddol y system ailddefnyddio. |
| Seilwaith gwastraff ac ailgylchu | Creu partneriaeth gydag awdurdodau lleol a/neu gwmnïau rheoli gwastraff preifat i rannu storfannau a gorsafoedd trosglwyddo. |
| Tir neu safleoedd cyhoeddus a phreifat gwag | Defnyddio tir neu adeiladau gwag sydd angen eu datblygu a/neu mewn ardaloedd lle mae angen mwy o swyddi. |
| Ardaloedd menter | Sefydlu cyfleusterau yn ardaloedd menter Cymru sy'n cael eu cynllunio i gefnogi sgiliau a sectorau arbenigol sy'n gysylltiedig â'r ardal leol. |
| Ffynonellau dŵr/safleoedd arllwys dŵr sydd ar gael | Sicrhau bod gan gyfleusterau golchi ffynhonnell gynaliadwy o ddŵr a/neu ddyfrffordd i ollwng dŵr, gan fodloni safonau diogelwch ac amgylcheddol. |
| Cysylltiadau trafnidiaeth | Lleihau symudiadau cerbydau ychwanegol ac effeithiau ar ffyrdd lleol. Dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer ôl-drosglwyddo gan ddefnyddio rhwydweithiau a hybiau trafnidiaeth presennol. |

Cwestiwn 22: Ydych chi'n cytuno â'r cyfleoedd hyn ar gyfer cynyddu datblygiad economaidd?

| **Cyfle** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Ddim yn gwybod** | **Rhowch fanylion ar gyfer eich ymateb** |
|---|---|---|---|---|
| DMO yng Nghymru yn sefydlu cyfleusterau didoli a golchi ar gyfer cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio | | | | |
| Cysylltu cyfleusterau CDE â phrosesau diwydiannol eraill | | | | |
| Lleoli wrth ymyl cynhyrchwyr a llenwyr cynwysyddion | | | | |
| Ffynonellau ynni adnewyddadwy | | | | |
| Seilwaith gwastraff ac ailgylchu | | | | |
| Tir neu safleoedd cyhoeddus a phreifat gwag | | | | |
| Ardaloedd menter | | | | |
| Ffynonellau dŵr/safleoedd arllwys dŵr sydd ar gael | | | | |
| Cysylltiadau trafnidiaeth | | | | |

Cwestiwn 23: Ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn bennaf fel:

- Unigolyn
- Awdurdod lleol
- Cymdeithas fasnach
- Perchennog brand
- Mewnforiwr/allforiwr
- Gwneuthurwr
- Dosbarthwr
- Manwerthwr
- Grŵp amgylcheddol
- Elusen
- Cwmni Buddiant Cymunedol
- Grŵp neu gynrychiolydd cymunedol
- Arall - nodwch
- Mae'n well gen i beidio â dweud

Cwestiwn 24: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y [mater, argymhelliad, opsiwn, cynnig, polisi, deddfwriaeth ac ati] ar yr iaith Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Ysgrifennwch yma:

Cwestiwn 25: Yn eich barn chi, a oes modd llunio neu newid y [mater, argymhelliad, opsiwn, cynnig, polisi, deddfwriaeth ac at]i er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ysgrifennwch yma:

Cwestiwn 26: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Ysgrifennwch yma:

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

Manylion (Ynghyd â gorfodol isod)

**Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgyngoriadau'n cael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n ddienw, ticiwch yma:**